# LEFEL 1 / 2 DYFARNIAD GALWEDIGAETHOL MEWN PEIRIANNEG
## Uwchlwytho Asesiad Di-arholiad - Cyfres Haf 2025

**Sylwer** - mae'n ofynnol rhoi cyfle i bob ymgeisydd apelio yn erbyn y marciau a aseswyd yn fewnol cyn i chi eu cyflwyno, felly mae'n rhaid i chi ystyried yr amser sydd ei angen ar gyfer hyn, yn unol â pholisi eich canolfan eich hun. Mae hyn yn berthnasol i bob pwnc, a phob corff dyfarnu. Mae rhagor o fanylion am hyn trwy CGC: Cyfarwyddiadau ar gynnal Gwaith Cwrs Adran 13.5 (tudalennau 14 / 18 wedi'u rhifo yn pdf)

**Dyddiadau Allweddol pwysig**

Dyddiad cau **COFRESTRIADAU – 21 Chwefror 2025**

Sgrin Mewnbynnu Marciau **IAMIS** yn Agor - **10 Mawrth 2025**

Ffioedd Hwyr **COFRESTRIADAU** i'w Talu - **19 Mawrth 2025**

Cyflwyno Marciau a Sampl i **IAMIS - 5 Mai 2025**

**ARHOLIAD** PM 1 awr 30 munud 5799N30-1 Uned 3: Datrys Problemau Peirianneg – **22 Mai 2025**

**DIWRNOD Y CANLYNIADAU – 21 Awst 2025**

**Paratoi gwaith ymgeiswyr unigol ar gyfer uwchlwytho i IAMIS**

Bydd paratoi tystiolaeth mewn dwy ffolder zip gywasgedig fesul ymgeisydd, fesul uned (gweler isod) yn lleihau nifer y ffeiliau y bydd angen i chi eu huwchlwytho. Efallai y bydd canolfannau yn ei chael hi'n ddefnyddiol trosi dogfennau i PDFs cyn eu cadw. Gellir cyfuno tasgau unigol mewn un ddogfen PDF. Yna gallwch gyfuno'r ffurflenni gweinyddu i mewn i ffeil PDF ar wahân. Os oes angen i chi leihau neu drosi ffeiliau fideo, yna mae canllawiau fideo i'w cael yma. Mae canllawiau fideo Adobe Pro i'w cael ar Youtube (bydd hyn yn ddefnyddiol os ydych yn cyfuno / trefnu dogfennau pdf mewn un ffeil). Dilëwch unrhyw dudalennau gwag yn y pdfs. Mathau o ffeiliau (mp3, mp4, mkv, wav, aiff, aif, aifc, doc, pdf, txt, ppt - cadw fel pdf). Os yw ffeiliau'n cynnwys clipiau sain / fideo wedi'u sefydlu yna rhaid uwchlwytho'r gwaith o fewn ffolder zip. Os nad ydych yn siŵr o ddilysrwydd math o ffeil yna cysylltwch â'r tîm e-gyflwyno – e-gyflwyno@cbac.co.uk (029 2240 4310).

**Peidiwch** ag uwchlwytho delweddau unigol fel jpg / png ac ati (Mae'r rhain yn cymryd llawer o amser i'w lawrlwytho'n unigol ar gyfer cymedrolwyr, felly mae'n rhaid iddynt fod yn rhan o ffeil / fformat cyflwyniadol fel dogfen PowerPoint neu Word). Rhaid i'r holl ddelweddau a ddefnyddir mewn unrhyw fathau o ddogfen(nau) fod wedi'u gosod yn gywir ac o faint addas i'w gweld. Mae'n bwysig mewn rhai pynciau fel Peirianneg bod delweddau o ganlyniadau yn cael eu tynnu o wahanol safbwyntiau ac mae arwydd o raddfa yn bwysig (bydd gosod pren mesur wrth ymyl y canlyniad cyn i'r ddelwedd gael ei thynnu yn ddigonol).

Mae angen i enwau ffeiliau / ffolderi fod yn glir. Os ydych chi'n cynnwys unrhyw nodau arbennig (mae hyn yn cynnwys unrhyw atalnodi) yna **ni fydd** y system yn ei dderbyn. **Defnyddiwch lythrennau a rhifau yn unig yn enw'r ffeiliau:**

O fewn ffolderi zip dylid defnyddio'r wybodaeth ganlynol yn enw'r ffeil. Enw a rhif yr ymgeisydd-Rhif yr uned (U1, U2)-Rhif y dasg neu Enw'r daflen gofnodi. Er enghraifft:

**John Smith 12345 U1 Tasg 1a / John Smith 12345 U1 Tasg 5**
**John Smith 12345 U1 TDY / John Smith 12345 U1 UPD**

Mae CBAC/Eduqas yn cadw'r hawl i ofyn am waith ychwanegol gan ymgeiswyr, felly dylai'r cyfan fod yn barod i'w uwchlwytho, nid dim ond y sampl. Os gofynnir am waith ychwanegol, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu bod problem – rydym hefyd yn gofyn am bopeth o ddewis ar hap o ganolfannau. Mae'n ddyletswydd reoleiddiol arnom i sicrhau bod asesiadau'n gywir ac yn gyson.

**Ffurflenni Gweinyddu wedi'u diweddaru**

Noder ein bod wedi symleiddio ein ffurflenni gweinyddu ar gyfer **Unedau 1 a 2**. At ddibenion rheoleiddio, bydd angen i ymgeiswyr gyflwyno Taflen Datganiad yr Ymgeisydd wedi'i llofnodi o hyd. Bydd y ffurflenni sy'n weddill yn un ddogfen Excel gyda thab ar gyfer pob un o'r ffurflenni cyfredol. Mae'r Daflen Cofnod Asesu a'r Daflen Cofnod Arsylwi (Uned 1 yn unig) wedi'u cyfuno yn un tab. **Ar gyfer Haf 2025, byddwn yn derbyn naill ai'r dogfennau newydd hyn neu'r hen ddogfennau ar gyfer cyflwyniadau canolfannau.**

**Uned 1 – Gweithgynhyrchu Cynhyrchion Peirianegol**

**Gofynion ar gyfer Uned 1 -** mae gwaith ymgeiswyr yn cael ei uwchlwytho trwy IAMIS**.**

Ar gyfer pob ymgeisydd yn eich sampl dylech uwchlwytho'r dystiolaeth ganlynol er mwyn cefnogi'r penderfyniadau asesu yr ydych wedi'u gwneud mewn dwy ffolder zip.

**Ffolder zip 1 -** Enw'r ffolder i'w huwchlwytho **(ZF1-U1-Enw-Ymgeisydd-Gweinyddol)**

**Mae angen y dogfennau canlynol:**

- Taflen Datganiad Ymgeisydd (TDY)
- Taflen Cofnodi Amser (TCAm)
- Taflen Cofnod Asesu (TCAs)
- Taflen Cofnod Arsylwi (TCAr)

Dogfen Weinyddu Newydd y Garfan.

**Rhaid cwblhau'r holl lofnodion – mae llofnodion electronig yn dderbyniol – bydd methu â chynnwys llofnodion yn golygu na ellir cymedroli'r gwaith.**

**Ffolder zip 2 –** Enw ffolder i'w huwchlwytho **(ZF2-U1-Enw-Ymgeisydd-Tystiolaeth)**

**Mae'r tasgau canlynol yn ofynnol:**

**Tasg 1a Marc Uchaf AA1 = 4 / AA3 = 6**
Archwiliwch y wybodaeth beirianegol sydd wedi'i rhoi i chi er mwyn gwneud y canlynol:
- nodi'r darnau a/neu'r cydrannau allweddol i'w cynhyrchu;
- dadansoddi'r wybodaeth allweddol sydd ei hangen er mwyn cynhyrchu'r prototeip o'r cynnyrch wedi'i beiriannu.

**Tasg 1b Marc Uchaf AA1 = 4**
Casglwch y wybodaeth dechnegol sydd ei hangen i gynhyrchu'r cynnyrch wedi'i beiriannu yn y gweithdy, gan gynnwys darnau a/neu gydrannau sydd eu hangen i gwblhau'r gwaith cydosod yn unol y fanyleb.

**Tasg 2a Marc Uchaf AA2 = 10**
Dewiswch y canlynol:
- defnyddiau addas i gynhyrchu'r cydrannau yn seiliedig ar y wybodaeth beirianegol, gan gynnwys nodi stoc defnyddiau a meintiau stoc;
- yr offer a'r cyfarpar sy'n angenrheidiol i gynhyrchu'r cydrannau yn seiliedig ar y wybodaeth beirianegol.

**Tasg 2b Marc Uchaf AA2 = 10**
Gan ddefnyddio'r wybodaeth beirianegol sydd wedi'i rhoi, cynlluniwch y camau ar gyfer cynhyrchu'r cydrannau.

**Tasg 2c Marc Uchaf AA3 = 6**
Aseswch y risgiau posibl sy'n gysylltiedig â'r prif gamau cynhyrchu wrth gynhyrchu'r prototeip wedi'i beiriannu, ac argymhellwch fesurau rheoli iechyd a diogelwch i atal y risgiau hyn.

**Tasg 3 Marc Uchaf AA2 = 16**
Cynhyrchwch ddeilliant (outcome) peirianegol yn seiliedig ar y manylion a'r data sydd wedi'u rhoi.

**Tasg 4a Marc Uchaf AA2 = 12**
Wrth gynhyrchu eich deilliant peirianegol, rhaid i chi wneud y canlynol:
- cymhwyso sgiliau mewn amrywiaeth o brosesau peirianegol;
- defnyddio amrywiaeth o ddefnyddiau addas.

**Tasg 4b Marc Uchaf AA3 = 12**
Ysgrifennwch adroddiad sy'n gwneud y canlynol:
- gwerthuso ansawdd y prototeip terfynol yn erbyn y meini prawf sydd wedi'u rhoi yn y lluniadau a'r fanyleb beirianegol;
- gwerthuso eich arferion a'ch prosesau eich hun;
- awgrymu gwelliannau lle bo hynny'n briodol.

**Uned 2 Dylunio Cynhyrchion Peirianegol**

**Gofynion ar gyfer Uned 2 -** mae gwaith ymgeiswyr yn cael ei uwchlwytho trwy IAMIS.

Ar gyfer pob ymgeisydd yn eich sampl dylech uwchlwytho'r dystiolaeth ganlynol er mwyn cefnogi'r penderfyniadau asesu yr ydych wedi'u gwneud mewn dwy ffolder zip.

**Ffolder zip 1 –** Enw ffolder i'w huwchlwytho **(ZF1-U2-Enw-Ymgeisydd-Gweinyddol)**

**Mae angen y dogfennau canlynol:**

- Taflen Datganiad Ymgeisydd (TDY)
- Taflen Cofnodi Amser (TCAm)
- Taflen Cofnod Asesu (TCAs)

Dogfen Weinyddu Newydd y Garfan.

**Rhaid cwblhau'r holl lofnodion – mae llofnodion electronig yn dderbyniol – bydd methu â chynnwys llofnodion yn golygu na ellir cymedroli'r gwaith.**

**Ffolder zip 2 –** Enw ffolder i'w huwchlwytho **(ZF2-U2-Enw-Ymgeisydd-Tystiolaeth)**

**Mae'r tasgau canlynol yn ofynnol:**

**Tasg 1a(i) Marc Uchaf AA2 = 2**
Esboniwch swyddogaethau unigol nodweddion cynradd y cynnyrch.

**Tasg 1a(ii) Marc Uchaf AA2 = 2**
Awgrymwch **o leiaf dau** gynnyrch arall wedi'u peiriannu sydd â phriodweddau swyddogaethol tebyg i'r rhai mae'r briff yn gofyn amdanyn nhw.

**Tasg 2 Marc Uchaf AA3 = 5**
Cyfiawnhewch sut mae priodweddau swyddogaethol y cynhyrchion peirianyddol a awgrymir yn bodloni gofynion y briff.

**Tasg 2a Marc Uchaf AA2 = 4**
Dyluniwch amrywiaeth o ddatrysiadau sy'n cwrdd â'r briff a'r fanyleb ddylunio.

**Tasg 2b Marc Uchaf AA3 = 4**
Gwerthuswch i ba raddau y mae eich dyluniadau'n cwrdd â'r meini prawf sydd wedi'u nodi yn y briff a'r fanyleb ddylunio ac argymhellwch y datrysiad gorau.

**Tasg 2c Marc Uchaf AA2 = 4**
Cyflwynwch eich syniadau dylunio yn glir gan ddefnyddio cyfryngau addas sy'n briodol i'r wybodaeth sy'n cael ei harddangos.

**Tasg 3a Marc Uchaf AA2 = 6**
Lluniadu, gan ddefnyddio lluniadau wedi'u peiriannu'n gywir o'ch datrysiad dylunio terfynol.

**Tasg 3b Marc Uchaf AA1 = 3**
Amlinellwch fanyleb beirianegol sy'n mynd i'r afael â'r pwyntiau allweddol sydd eu hangen i gynhyrchu'r datrysiad dylunio.

**Tasg 4a Marc Uchaf AA2 = 4**
Cymhwyswch dechnegau mathemategol sy'n briodol i'r dasg ermwyn datrys problemau penodol sydd wedi'u nodi yn y briff.

**Tasg 4b Marc Uchaf AA3 = 6**
Bydd trydydd parti yn cynhyrchu'r prototeip. Rhaid i chi gynghori'r trydydd parti am y canlynol:
- defnyddiau mae'n bosibl eu defnyddio i gynhyrchu'r addasiad dylunio sy'n cael ei gynnig;
- prosesau ar gyfer cynhyrchu cydrannau'r dyluniad wedi'i addasu.

Dylech chi gyfiawnhau eich dewisiadau.

**Uwchlwytho Marciau a Gwaith i IAMIS**

Gallwch ofyn i'ch swyddog arholiadau osod cyfrif eilaidd i chi i'r Porth os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny. Bydd angen ychwanegu'r unedau priodol at eich cyfrif eilaidd o dan Marciau Asesu Mewnol / Canlyniadau er mwyn eich galluogi i uwchlwytho marciau a gwaith.

1. Unwaith y bydd gwaith ar gyfer ymgeiswyr wedi'i farcio ac apeliadau mewnol wedi'u datrys, bydd y marciau ar gyfer pob ymgeisydd a gofrestrwyd yn cael eu huwchlwytho drwy IAMIS ar y Porth.

2. Pwyswch y botwm cyflwyno yna bydd y sgrin yn adnewyddu a bydd eich sampl yn cael ei nodi.

3. Yna gallwch glicio ar ymgeiswyr unigol yn y sampl ac uwchlwytho'r gwaith / tystiolaeth. Unwaith y bydd marciau'n cael eu cyflwyno gallwch ail-ymweld â'r sgrin mewnbynnu sy'n dangos rhestri o ymgeiswyr ond bydd ychydig yn wahanol oherwydd bydd eicon 'Upload Cloud' yn ymddangos. Pwyswch yr eicon cwmwl a bydd ffenestr yn ymddangos er mwyn eich galluogi i ddewis ffolder / ffeil i'w huwchlwytho. Dewiswch y ffeil yr ydych yn dymuno ei huwchlwytho a chliciwch ar 'Agor'. Bydd y ffeiliau sydd wedi'u llwytho i fyny yn cael eu harddangos gyferbyn â'r ymgeisydd o dan y botwm llwytho i fyny. Os na fydd y ffeiliau'n ymddangos neu eich bod wedi gwneud camgymeriad a dewis y ffolder / ffeil anghywir yna cysylltwch â CBAC / Eduqas. **Sylwer:** Os ydych wedi cyflwyno cofrestriadau ar gyfer y ddwy uned bydd yn rhaid i chi uwchlwytho **dwy** ffeil zip fesul uned ar gyfer pob ymgeisydd. **Peidiwch â'u cymysgu!**

Dyddiad cau ar gyfer uwchlwytho'r sampl y gofynnwyd amdano yw hanner nos ar **5 Mai 2025** (oni bai bod estyniad wedi'i gytuno gyda'r tîm pwnc o flaen llaw). Peidiwch ag anghofio ei bod yn cymryd amser i uwchlwytho'r marciau a'r gwaith. Rhowch drefn ar eich hun ymlaen llaw gyda chonfensiynau enwi ac ati. Os ydych yn cyflwyno Uned 1 ac Uned 2 yna gwnewch yn siŵr eich bod yn uwchlwytho gwaith o dan yr uned gywir ac ar gyfer yr ymgeisydd cywir.

**Cyfnewid Cymwysterau**

Os yw ymgeiswyr yn cwblhau'r cymhwyster y gyfres hon, dylent hefyd fod wedi'u cofrestru ar gyfer yr agregu (cyfnewid). Nid yw hyn yn digwydd yn awtomatig; mae angen mewnosod y cod perthnasol er mwyn i agregu ddigwydd. Y cod yw 5799QA. Bydd angen i ymgeiswyr fod wedi cael eu cofrestru (ac nid eu tynnu'n ôl) ar gyfer pob un o'r 3 uned orfodol: Uned 1 5799N1, Uned 2 5799N2 ac Uned 3 5799N3.

**Cysylltau defnyddiol**

E-Gyflwyno (uwchlwytho ar IAMIS) - Canllaw Pynciau

Canllaw Cam wrth Gam i'r System Mewnbynnu Marciau Asesiad Mewnol

Asesiad Mewnol: Canllaw i ganolfannau

Rhestr Wirio Asesiadau Mewnol

Arddangosiad fideo o'r broses uwchlwytho

Mae llawer o fideos defnyddiol yn rhoi arweiniad ar gywasgu delweddau a throsi ffeiliau sain a fideo ar eich tudalen e-gyflwyno.

**Manylion Cyswllt Defnyddiol**

Am arweiniad ar unrhyw agwedd ar y broses e-gyflwyno cysylltwch â: e-bost: e-gyflwyno@cbac.co.uk Ffôn 029 2240 4310

Ar gyfer ymholiadau penodol i'r pwnc nad ydynt yn ymwneud ag e-gyflwyno, cysylltwch â: e-bost: peirianneg@cbac.co.uk Ffôn 029 2026 5470